

**DARLITH FLYNYDDOL MORLAN 2012**

# **O Blas Gogerddan i Fae Caerdydd**

**Vaughan Roderick**

**Golygydd Materion Cymreig BBC Cymru**



**Morlan**

Canolfan ffydd a diwylliant  
Centre for faith and culture



## Cefndir

Canolfan yw Morlan sydd â'r nod o hybu bywyd cymunedol – yn ddiwylliannol ac ysbrydol, yn lleol a thu hwnt. Fe'i sefydlwyd yn Ebrill 2005 i greu pont rhwng yr eglwys a'r gymdeithas o'i chwmpas ac mae wedi datblygu yn ganolfan bwysig yn yr ardal.

Ond mae Morlan yn llawer mwy nag adeilad ...

Mae'n fan cyfarfod – i greu a thrafod, i berfformio, i ddysgu, i ysgogi a chalonogi, i gyd-ddeall a chlosio, i rannu a chyfrannu ... tir canol rhwng yr eglwys a phawb sy'n byw yn ein cymdeithas amlddiwylliannol.

Man croesawus a chyfeillgar ydyw sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hynny bletha'r ddynoliaeth, pob crefydd a chred i'w gilydd. Gwêl ymddiriedolwyr Capel Presbyteriaid y Morfa, perchnogion Morlan, fod sefydlu a chefnogi'r ganolfan yn rhan o'u cenhadaeth.

Gellir llogi amryw ystafelloedd Morlan – neuadd fawr, dwy ystafell bwyllgor a bar coffi – ar gyfer pob math o ddigwyddiadau a gweithgareddau, ac mae ganddi'r cyfleusterau ar gyfer perfformiadau cerddorol a drama. Ac mae'n ganolfan brysur! Cynhelir cyfarfodydd gweddi, dosbarthiadau Cymraeg, dosbarthiadau dawnus a grŵp darllen gwefusau a chlwb ieuencid yno bob wythnos, ac mae nifer o grwpiau lleol yn ystyried Morlan fel eu 'cartref', gan gwrdd yn rheolaidd yno. Llogir y lle gan grwpiau lleol a chenedlaethol.

Yn ogystal, mae Morlan yn cynnal ei rhaglen ei hun o ddigwyddiadau a gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn ar ystod eang o bynciau – cymdeithasol, gwleidyddol, crefyddol a diwylliannol.

Rhwng y rhaglen hon a gweithgarwch y llogwyr, mae pob math o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn y Morlan – pwyllgorau, cynadleddau, dramâu, cyngherddau, cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau cymdeithasol, ffeiriau o bob math, trafodaethau, anerchiadau ac arddangosfeydd celf.

Cynhaliwyd Darlith Flynyddol gyntaf Morlan ym mis Ebrill 2010 pan oedd Morlan yn dathlu ei phum-mlwyddiant (*Gwleidyddiaeth a Chrefydd: Y Parchedicaif Ddoctor Barry Morgan, Archesgob Cymru*). Dilynwyd hon yn 2011 gan Farwnes Finlay o Landaf gyda darlith ar y thema *Marw Gydag Urddas*. Dyma felly'r drydedd Ddarlith Flynyddol; fe'i thraddodwyd ar 19 Ebrill 2012.

---

Am ragor o wybodaeth am y Morlan, cysyllter â:

Y Rheolwr  
Morlan  
Morfa Mawr  
Aberystwyth  
SY23 2HH

Ffôn: 01970-617996  
E-bost: [morlan.aber@gmail.com](mailto:morlan.aber@gmail.com)  
Gwefan: [www.morlan.org.uk](http://www.morlan.org.uk)

## O Blas Gogerddan i Fae Caerdydd

1841 oedd y tro cyntaf i gyfrifiad swyddogol cael ei gynnal yn y gwledydd hyn ers dyddiau Gwilym Concwerwr, ac mae pori'r trwy'r canlyniadau yn ffordd ddifyr a diddorol o dreulio ychydig o oriau hesb.

Am resymau a ddaw'n amlwg yn ddigon buan, bues i'n edrych yn ddiweddar ar gofnodion plwyf nid nepell o Aberystwyth, sef Trefeurig.

Mae yna ddau beth sy'n eich taro chi'n syth am Drefeurig yn 1841; yn gyntaf bod Penrhyn-coch yn lle hynod o dlawd, bychan a di-nod, ac yn ail mai dim ond llond dwrn o drigolion y plwyf oedd wedi eu geni y tu fas i Sir Aberteifi. Go brin fod y naill beth na'r llall yn wir heddiw.

Un o'r ychydig estroniaid oedd yn byw yn Nhrefeurig oedd Thomas Roderick. Yn ôl y cyfrifiad fe'i ganwyd yn "Scotland" ac roedd yn labrwr.

Mae'n debyg y byddai Thomas ei hun yn gallu bod ychydig yn fwy manwl ynghylch ei fan geni, sy'n awgrymu i mi bod rhywun wedi llenwi'r ffurflen ar ei ran a bod yntau'n anllythrennog neu efallai'n ddiog! Llythrennog ai peidio, go brin fod ganddo fe nac eraill o'i ddsbarth yr addysg na'r wybodaeth i fod yn greaduriaid gwleidyddol iawn.

Un o bob saith o ddynion y Deyrnas Unedig oedd â'r hawl i bleidleisio erbyn 1841 a gallwn fod yn sicr nad oedd Thomas yn un ohonyn nhw. Mae'n annhebyg felly bod cwestiynau mawr y dydd yn ei boeni wrth iddo grafu bywoliaeth i'w deulu.

Yn ôl chwedloniaeth y teulu, dod i Gymru i weithio fel cipar ar stad Gogerddan wnaeth Thomas Roderick. Rwy'n tueddu credu'r chwedloniaeth honno.

Un o'r atgofion cynharaf sydd gen i yw sefyll ar gadair pan yn grwt i adrodd y darn fwyaf gwaedlyd o farddoniaeth yn yr iaith Gymraeg er mawr ddilêit i giwed o hen fodrybedd. Efallai eich bod yn gyfarwydd â hi.

*I blas Gogerddan heb dy dad!  
Fy mab erglyw fy llef,  
Dos yn dy ôl i faes y gad,  
Ac ymladd gydag ef.  
Dy fam wyf fi, a gwell gan fam  
It gollit' th waed fel dwfr  
Neu agor drws i gorff y dewr  
Na derbyn bachgen llwfr.<sup>1</sup>*

Dydw i ddim yn rhagweld y bydd honna yn rhestr testunau'r Urdd yn y dyfodol agos!

Un peth sy'n sicr – os buodd Thomas yn gweithio ar Stad Gogerddan, barodd e ddim yn hir. Efallai ei fod wedi twgyd sgwarnog o'r stad neu hyd yn oed sws gan un o'r 'Preis

<sup>1</sup> *I Blas Gogerddan*, John Ceiriog Hughes

Pur' ond cyn bo hir roedd y teulu cyfan yn gweithio yn y gweithfeydd plwm. Roedd y rheiny yn gymaint o uffern ar y ddaear nes gwneud i lofeydd y de ymddangos fel nefoedd o dan ddaear – ac fel sawl teulu arall o Geredigion fe ddenwyd y Rodericiaid gan Klondyke Cymreig y Rhondda a chael cryn lewyrch yno.

Erbyn diwedd y ganrif roedd dynion y teulu yn dal i weithio dan ddaear ond yn bobol â thipyn o statws yng Nghlydach Vale – yn goliars ac yn haliers wrth eu gwaith – ond hefyd yn flaenoriaid, yn athrawon ysgol Sul ac, yn un achos, yn gynghorydd Rhyddfrydol.

Yn y genhedlaeth nesaf aeth y Roderick cyntaf i goleg; Thomas arall oedd e – er mai fel T.M. yr oedd yn cael ei adnabod. Tad-cu byswn i wedi ei alw, pe na bai wedi ein gadael ymhell cyn fy nyddiau i.

Ar ôl astudio yng Ngholeg yr Annibynwyr yn Aberhonddu, cafodd ei alw i fod yn weinidog ar gapel Tabernacl Cwmgors. Yno, roedd yn rhan o griw hynod o weinidogion – Annibynwyr yn bennaf – wnaeth lywio sefydlu yn gynta'r Blaid Lafur Annibynnol ac yna'r Blaid Lafur yn y cylch.

Niclas y Glais yw'r enwocaf o'r gweinidogion hynny – ond nid fe oedd yr unig un ac, o ganlyniad i ddylanwad y gweinidogion hyn, roedd sylfaeni deallusol Llafuriaeth y maes glo caled yn wahanol iawn i'r blaid yng ngweddill maes glo'r de.

Fe fydd mwy gen i ddweud am hynny yn y man ond rwyf am gwblhau'r hanes teuluol yn gyntaf!

Fel Niclas, cafodd T.M. a rhai o'r gweinidogion eu dadrithio gan y Blaid Lafur. Fe drodd Niclas yn Gomiwnydd, wrth gwrs gan sicrhau mai fe yw'r unig berson erioed i sicrhau ysgrifau coffa yn y *Tyst a'r Morning Star!* Cydymdeimlo'n fwyfwy â Phlaid Cymru wnaeth T.M. a'r lleill.

Nawr, dydych chi ddim wedi dod yma heddiw i wrando ar ddarlith ynghylch hel achau – ond rwy'n meddwl bod y daith wleidyddol rwyf wedi'i disgrifio yn weddol o gyffredin yng Nghymru yn enwedig ymhlith teuluoedd o gefndir anghydfurfiol Cymraeg eu haith. O anwybodaeth ac anllythrennedd i Ryddfrydiaeth trwy Lafuriaeth at genedlaetholdeb.

Mae'n sicr bod 'na deithiau gwleidyddol gwahanol wedi digwydd. Yma yng Ngheredigion er enghraifft mae'n sicr bod nifer o deuluoedd wedi cadw'r ffydd o fewn y Blaid Ryddfrydol ac eraill wedi mudo'n uniongyrchol o'r blaid honno i Blaid Cymru.

Wrth gwrs cyrhaeddodd sawl teulu capel, yn enwedig efallai y rhai a gollodd yr iaith, ddiwedd eu taith wleidyddol yn y Blaid Lafur a chael yn honno gartref cynnes clyd. Beth sy'n ddiddorol i mi yw hyn.

Er yr holl fudo pleidiol yma dydw i ddim yn synhwyro bod gwerthoedd cymdeithasol a gwleidyddol sylfaenol pobol o gefndir anghydfurfiol Cymreig wedi newid rhyw lawer ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Y gwahaniaeth rhwng heddiw a'r pryd hwnnw yw bod pobol a'r gwerthoedd hynny bellach wedi eu gwasgaru rhwng tair os nad pedair plaid. Yn oes Fictoria roeddent wedi'u huno mewn un blaid – sef yr hen Blaid Ryddfrydol.

Fe ddof i at y rhesymau am hynny a'i effeithiau yn y man ond cyn gwneud hynny mae'n well i fi geisio rhoi ryw fath o ddiffiniad o'r hyn rwy'n golygu wrth sôn am werthoedd anghydfurfiol Cymreig.

Y peth cyntaf i ddweud yw nid sôn am gredoau crefyddol ydw i yn fan hyn. Etholiadau nid etholedigaeth yw fy arbenigedd i – a bysw'n i ddim yn meiddio mentro i faes y diwinydd.

Sôn ydw i am ddaliadau gwleidyddol a safbwyntiau moesol teuluoedd o gefndir anghydfurfiol. Mae'r rheiny wrth reswm yn deillio o ddealltwriaeth eu cyndadau o'r efengyl ond maen nhw'n parhau hyd heddiw, hyd yn oed mewn teuluoedd nad ydynt byth yn tywyllu drws capel ac eithrio ar gyfer angladd neu briodas.

Ar ôl dweud nad oeddwn am fentro i ddiwinyddiaeth rwyf am gymryd un gair o gyngor o Efengyl Luc, sef taw wrth y ffrwyth y mae adnabod y pren.

Trwy edrych ar ffrwythau Anghydfurfiaeth yn oes ei hanterth gallwn ganfod beth oedd ei gwerthoedd sylfaenol – gwerthoedd sydd, yn fy marn i, yn dal i liwio gwleidyddiaeth Cymru i raddau helaeth iawn heddiw.

Y peth cyntaf i ddweud am yr enwadau oedd eu bod yn gyrrff gweddol ddemocrataidd – boed hynny ar lefel capeli unigol yn achos yr Annibynwyr neu ar lefel enwad cyfan fel yn achos y Presbyteriaid, y Bedyddwyr a'r Methodistiaid.

Roedd 'na wahaniaeth rhwng y gwrandawyr ar aelodau – a'r aelodau a'r Blaenoriaid – ond, ar y cyfan, nid credo oedd hon oedd â dosbarth offeiriadol yn cadw cyfrinachau'r ffydd o'u cynulleidfaoedd. Yn hytrach, cyrff oedden nhw oedd yn tynnu eu harweinwyr o blith eu cynulleidfaoedd lle'r oedd modd i'r mwyaf disglair – o'r dynion o leiaf – esgyn i'r sêth fawr neu'r pulpud. Mae ysbryd democratiaeth felly yn un o werthoedd sylfaenol y bobol rwy'n sôn amdany'n nhw heno.

Yn gysylltiedig â hynny roedd y rhain yn bobol oedd yn trysori dysg ac yn dyrchafu addysg. Meddyliwch am yr ysgolion Sul, y cyfarfodydd llenyddol, ysgolion cylchynol Gruffydd Jones neu'r ymgyrchoedd i hel ceiniogau prin i godi'r Coleg ger y Lli a'r Coleg ar y Bryn.

Roedden nhw'n bobol hefyd oedd yn falch o weld pobol yn defnyddio'r addysg honno i ddod ymlaen yn y byd. Testunau edmygedd nid eiddigedd oedd pobol fel David Davies,

Llandinam neu deulu James Pantyfedwen – cyn belled â bod y bobol hynny yn cofio o ble y daethon nhw ac yn rhoi rhywbeth yn ôl.

Roedd yr agwedd tuag at y Sgweier wnaeth etifeddu ei gyfoeth – neu'r *entrepreneur* llwyddiannus oedd yn cam-drin ei weithlu – ychydig yn wahanol!

Rwyf am roi un enghraifft i chi o beth oedd y 'rhoi yn ôl' yn ei olygu. Mae gen i gyfaill sydd o deulu wnaeth symud o Geredigion i Gaerdydd yn oes Fictoria. Nid i'r busnes llaeth yr aeth y rhain ond i'r busnes dillad a nwyddau cotwm neu '*Manchester Goods*' fel oedd y rheiny'n cael eu galw. Fe ddatblygodd y busnes yn gadwyn o siopau wnaeth barhau tan chwedegau'r ganrif ddiwethaf.

Mae'r teulu o hyd yn byw bywyd digon cysurus ond rhyw dro fe wnaeth fy nghyfaill ofyn i'w fam i ble yr oedd yr holl gyfoeth wedi mynd. Fe gafodd yr ateb yn ddigon sydyn. Cynhyrchwyd bocsgidiau yn llawn o'r allweddi coffa yr oedd capeli yn rhoi i'r cyfranwyr mwyaf hael i'w cronfeydd adeiladu. Yma yng Ngheredigion yr oedd y capeli hynny, ac iddyn nhw yr oedd yr arian wedi mynd. Mae'n sicr bod yr hen ben teulu yn ddyn digon poblogaidd ymhlith Cardis crefyddol ei gyfnod. P'un ai ydy hynny wir am ei ddisgynyddion ai peidio sy'n fater arall!

Nid derbyn rhoddion yn unig oedd y capeli. Yn y cyfnod cyn y wladwriaeth les, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, roedd aelodau achos yn cynnal ei gilydd trwy drafferthion bywyd.

Roedd oes anterth y capeli hefyd yn oes aur i gymdeithasau lles a chyd-gymorth fel y Gwir Iforiaid, ac efallai bod a wnelo dyfodiad y wladwriaeth les rhywbeth a dirywiad pwysigrwydd y capeli i fywyd cymunedol yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma yng Ngheredigion fe goffawyd bywyd Henry Richard – yr apostol heddwch. Yn sicr mae heddychiaeth, neu o leiaf gwrth-filitariaeth, yn un arall o'r gwerthoedd y gellid ei ychwanegu i'r rhestr – er efallai na ddylid gor-bwysleisio'r elfen honno. Wedi'r cyfan roedd y modrybedd yna oedd yn dwli ar gerdd waedlyd Plas Gogerddan yn bobol capel bob un!

Democratiaeth, dysg, parch at lwyddiant, rhoi yn ôl a chyd-gynnal eich gilydd, heddychiaeth – dyna rai o leiaf o werthoedd gwleidyddol craidd Anghydfurfwyr.

Mae yna un arall hefyd – sef y syniad o fyw'n barchus neu fyw'n foesol. Mae hwn efallai yn anoddach i ni heddiw ei ddeall na'r gweddill – o ystyried rhyddfrydiaeth foesol ein hoes ni.

Mae'n anodd i ni heddiw er enghraifft ddeall yr arfer o dorri mas merched sengl beichiog, neu ŵr oedd yn hoff o'i beint. Roedd pwysau aruthrol, ac weithiau rhagrithiol, ar bobol i gydymffurfio i norm cymdeithasol ac mae hynny'n beth estron iawn i ni heddiw.

Yn sicr, bu'r agwedd hon o fywyd capel yn fêl ar fysedd beirniaid y capeli – o Garadog Evans hyd heddiw.

Dydw i ddim am dreulio llawer o amser ar hyn – gan mai canfyddiad pobol o gefndir anghydfurfiol o'u gwerthoedd eu hun sy'n bwysig yn y ddarlith hon, nid canfyddiad pobol eraill ohonyn nhw – ond fe wnaif i godi cwestiwn.

Ydy hi'n gredadwy bod crefydd oedd yn pwysleisio achubiaeth, tröedigaethau a maddeuant mor anfaddeugar tuag at ffaeleddau unigolion?

Onid yw hi'n fwy tebygol bod hanesion fel un y ferch ar lan hen afon Ddyfrdwy ddofn yn chwedlau neu'n straeon arswyd i godi llond bola o ofn ar bobol a'u cadw ar y llwybr cul?

Ta beth am hynny. Os oedd gwerthoedd anghydfurfiol oes Fictoria yn deillio o ddaliadau crefyddol, beth oedd eu heffeithiau ar wleidyddiaeth y cyfnod?

Wel y Blaid Ryddfrydol i bob pwrpas oedd asgell wleidyddol yr Anghydfurfwr. Drwyddi hi yr ymgyrchwyd dros amcanion gwleidyddol oedd yn unol â daliadau pobol capel ac oddi mewn iddi y datryswyd gwahaniaethau barn rhyngddyn nhw.

Y mwyaf amlwg ac enwocaf o'r rheiny oedd y gwahaniaeth barn ynghylch dyfodol cyfansoddiadol Cymru rhwng y rheiny oedd yn chwennych ymreolaeth yn rhengoedd mudiad Cymru Fydd a Ffederasiwn Rhyddfrydol Gogledd Cymru ac unoliaethwyr Ffederasiwn De Cymru a Mynwy.

Fe gyrhaeddodd y ffrae honno ei phenllanw mewn cyfarfod drwg ei dymer yng Nghasnewydd yn 1896 pan wrthodwyd yr hawl i Lloyd George, ffigwr amlycaf Cymru Fydd, hyd yn oed annerch y gynulleidfa.

Yr hyn sy'n ddiddorol wrth edrych ar y ffrae honno yw'r hyn na ddigwyddodd. Cerddodd neb allan o'r Blaid Ryddfrydol, a doedd dim rhaniad parhaol na drwgdeimlad amlwg o fewn iddi. Ymateb trwch cefnogwyr ymreolaeth i dranc ei breuddwyd oedd derbyn y peth – fel pe bai'n amhosib hyd yn oed dychmygu ymgyrchu dros unrhyw newid heb sêl bendith unedig y Blaid Ryddfrydol.

Ac roedd 'na ddigon o bynciau eraill i ymgyrchu yn eu cylch nhw a fyddai'n cadw'r blaid yn unedig.

Un o'r rhai pennaf oedd pwnc sydd bron yn angof heddiw sef perchnogaeth tir. Yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd parthau helaeth o'r wlad o hyd yn eiddo i stadau mawrion a bychain. Tenantiaid oedd y mwyafrif o'r boblogaeth yn wledig ac yn drefol gyda'u cartrefi a'u bywoliaethau yn dibynnu ar ffrwyth eu llafur neu ffrwyth tir eu landlord.

Dyma ambell i ffigur i chi. Yn 1880 roedd 16% o ffermwyr Lloegr yn bia’u ffermydd. Yng Nghymru y ffigur oedd 10.7%. Yn Sir Gaernarfon roedd hi’n 4%. Does rhyfedd bod tir yn bwnc mor bwysig i Lloyd George!

Ychwanegwyd at bwysigrwydd gwleidyddol y cwestiwn tir gan ddigwyddiadau ym Meirionydd yn sgil etholiad 1859.

Mae ’na beth dadlau ymysg haneswyr ynghylch pa mor gyffredin oedd yr achosion o deuluoedd yn cael eu hel o’u ffermydd ar ôl pleidleisio i’r Rhyddfrydwyr yn yr etholiad hwnnw – ond roedd yr hanesion yn rhan o chwedloniaeth wleidyddol Cymru ac yn ychwanegu at y galwadau cyson am fesurau i ledaenu perchnogaeth tir neu o leiaf i amddiffyn hawliau tenantiaid.

Nid Mrs Thatcher oedd y gyntaf i drysori’r syniad o *‘property owning democracy’*.

Pwnc nid annhebyg oedd cwestiwn yr Eglwys sefydledig. Os oedd talu crochris o rent i landlord o Sais yn ddigon i godi tymer Cymro o gapelwr, roedd gorfod talu degwm i Eglwys y landlord hwnnw’n debyg o’i hela’n gwbl benwan!

Rwyf eisoes wedi crybwyll pwysigrwydd addysg i’r Anghydfurfwyr ac un elfen o’r ymgyrch dros addysg sylfaenol i bob plentyn oedd sicrhau nad oedd yr addysg honno’n cael ei darparu na’i dylanwadu gan Eglwys Lloegr – ac Eglwys Lloegr oedd hi cofiwch nid Eglwys Cymru.

Pwnc arall oedd yn poeni’r capelwyr oedd dirwest a chadw’r Saboth, ac un o fuddugoliaethau cynnar Anghydfurfwyr a Rhyddfrydwyr Cymru oedd y ddeddf i orfodi cau tafarnau ar y Sul. Y ddeddf honno yn 1881 oedd y ddeddfwriaeth gyntaf o bwys i drin Cymru yn wahanol i Loegr ers y deddfau uno ac roedd rhai eisiau mynd ymhellach.

Mewn nofel a gyhoeddwyd yn yr 1890au o’r enw *Lady Gwen* gan awdur oedd yn galw ei hun yn *‘Welsh Nationalist’* ceir proffwydoliaeth ynghylch sut le fyddai Cymru yn y flwyddyn 2000.

*Lady Gwen* y teitl yw Prif Weinidog Dominwm Cymru. Roedd darogan y gallai menyw gyflawni’r fath swydd yn feiddgar ar y pryd – ond roedd yr awdur ymhell o’i le wrth broffwydo mai gweithred gyntaf Senedd Cymru fyddai gwahardd alcohol yn gyfan gwbl ac y byddai’r weithred honno yn esgor ar ddatliadau hyd yn oed yn fwy na datliadau rhyddid cenedlaethol!

Nawr mae’r pynciau rwyf wedi crybwyll, ynghyd â phynciau eraill, naill ai yn bynciau oedd yn benodol Gymreig neu’n rhai oedd ag elfen Gymreig bwysig iddyn nhw.

Naturiol felly oedd bod y system bleidiol yng Nghymru yn seiliedig ar y rhaniadau barn ynghylch y pynciau Gymreig hynny.



Yr oedd gwleidyddiaeth Cymru yn hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg felly yn wleidyddiaeth oedd yn benodol Gymreig gyda'r ddwy blaid fawr yn cynrychioli'r carfanau naturiol o fewn Cymru.

Roedd hynny'n sicr yn wir yn 1906 anterth y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru – a'r tro cyntaf i Gymru fod yn wlad ddi-Dori o safbwynt ei chynrychiolaeth seneddol.

Ond yn yr etholiad hwnnw hefyd cafwyd arwydd o'r newid oedd i ddod gydag ethol llond dwrn o aelodau Llafur a Lib-Lab.

O fewn ugain mlynedd fe fyddai gwleidyddiaeth Cymru wedi ei thrawsnewid. Fe fyddai'r blaid Lafur yn teyrnasu ar draws yr ardaloedd diwydiannol, y Blaid Ryddfrydol yn rhanedig ac ar ei thin, a'r Ceidwadwyr unwaith yn rhagor wedi ail-sefydlu eu troedle ar y meinciau Cymreig.

Ond nid rhyw fân newid o un blaid oedd yn cynrychioli'r chwith – y Blaid Ryddfrydol – i blaid arall ar y chwith – y Blaid Lafur – oedd hwn. Roedd y newid yn fy marn i yn un llawer llawer mwy sylfaenol.

Roedd Cymru wedi symud mewn ychydig ddegawdau o gyfundrefn wleidyddol oedd yn benodol Gymreig i un oedd i bob pwrpas yn efelychu patrwm Lloegr. Wedi'r cyfan, beth oedd y pynciau oedd yn gwahaniaethu Llafur a'r Ceidwadwyr?

Nid pynciau penodol Cymreig fel tir, addysg, dirwest a datgysylltu'r Eglwys ond pynciau oedd ar y cyfan yn rhai Prydeinig eu naws – perchnogaeth diwydiant a gwladoli, darpariaeth iechyd, tldi a diweithdra, imperialaeth a'r ymateb i dwf ffasgiaeth a chomiwnyddiaeth ar gyfandir Ewrop i enwi rhai ohonyn nhw.

Nid cwestiynau Cymreig oedd y rhain – ac yn sicr nid atebion Cymreig oedd yn cael eu cynnig gan Lafur a'r Ceidwadwyr.

Pam wnaeth hynny ddigwydd?

Wel mae 'na sawl ffactor. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad efallai bod llwyddiant y Rhyddfrydwyr yn 1906 wedi dod yng nghysgod y diwygiad mawr olaf yn 1904-05 ac mae'n bosib bod cwmp y Blaid Ryddfrydol yn deillio'n rhannol o ddechrau decllein hir y capeli.

Yn ogystal, roedd hwn yn gyfnod o newid ieithyddol mewn sawl ardal ac, yn yr ardaloedd oedd yn Seisnigeiddio'n gyflym, roedd y Blaid Lafur newydd yn ddigon agored ei gelyniaeth i'r Gymraeg a'r hen ffordd Gymreig o fyw.

Yn wir yn y cymoedd, lle'r oedd y capeli i bob pwrpas yn cynrychioli'r unig gyrrff cymdeithasol o bwys nad oeddynt o dan ddylanwad neu reolaeth y blaid Lafur, mae'r elyniaeth honno yn hawdd ei hesbonio os nad ei maddau.

Ond mae 'na ffactor arall sy'n esbonio'r newid ac un hynod eironig sef mai un o'r rhesymau am ddinistr y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru oedd ei llwyddiant.

Meddylwch am y brwydrau penodol Cymreig yna y bues i'n sôn amdanyn nhw yn gynharach.

Roedd drysau'r tafarnau wedi cau ar y Sul yn 1881. Roedd addysg i bob plentyn, oedd bron yn rhydd o adael yr Eglwys sefydledig, wedi ei hennill yn 1896. Fel canghellor roedd Lloyd George wedi cyflwyno trethi a fyddai dros amser yn arwain yn anorfod at chwalu'r stadau mawrion a gwerthu tir i denantiaid ac, ar ddechrau'r daudddegau, enillwyd brwydr a fu unwaith yn ffyrnig i ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru.

Daw'r prawf gorau o'r ffordd yr oedd brwydrau a fu'n ganolog i wleidyddiaeth Cymru bellach yn ymylol yn wleidyddol gan fardd – ond nid un o Gymru.

Yn ystod y ddadl seneddol ynghylch mesur datgysylltu'r Eglwys fe ddisgrifiodd F.E. Smith, Arglwydd Birkenhead, y mesur fel hyn: *"It is a bill which has shocked the conscience of every Christian community in Europe."*

Dyma ran o ymateb G.K. Chesterton i'r sylw yna:

*It would greatly, I must own,  
Soothe me, Smith!  
If you left this theme alone,  
Holy Smith!  
For your legal cause or civil  
You fight well and get your fee;  
For your God or dream or devil  
You will answer, not to me.  
Talk about the pews and steeples  
And the cash that goes therewith!  
But the souls of Christian peoples ...  
Chuck it, Smith!<sup>2</sup>*

Pynciau newydd a chwestiynau newydd oedd yn poeni pobol Cymru erbyn y daudddegau a'r tridegau – pynciau Prydeinig yn bennaf a phatrwm Prydeinig oedd i'r rhaniad pleidiol felly.

Yn 1926 ffurfiwyd plaid fechan newydd i'r rheiny oedd o hyd yn poeni am gwestiynau penodol Cymreig – ond plaid fechan iawn oedd Plaid Genedlaethol Cymru am ddegawdau i ddod.

Yn ystod y degawdau cyn ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd fe gododd ambell i bwnc llosg Cymreig o bryd i gilydd – ymdrechion i feddiannu tir at ddibenion milwrol neu gyflenwadau dŵr neu gwestiynau ynghylch statws a dyfodol y Gymraeg er enghraifft.

---

<sup>2</sup> *Antichrist, or the Reunion of Christendom: An Ode*, G.K. Chesterton

Yn hyn sy'n ddiddorol yw hyn. Bron bob tro yr oedd cwestiynau o'r fath yn codi roedd yr hollt yn y farn gyhoeddus a'r farn ymhlith gweledyddion i'w canfod nid rhwng y pleidiau ond trwy ganol un ohonyn nhw – y Blaid Lafur.

Nawr mae aelodau Llafur yn casáu'r llaw-fer newyddiadurol sy'n cyfeirio at esgyll cenedlaethol ac unoliaethol y blaid. Maen nhw'n mynnu bod 'na llawer mwy yn uno aelodau'r blaid nag oedd neu sydd yn eu gwahanu. Mae hynny'n wir cyn belled â mai pynciau Prydeinig sydd dan sylw, a rheiny oedd o dan sylw am y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif. Er hynny ni ellir gwadu bod yna ddau draddodiad o fewn Llafur o safbwynt pynciau penodol Cymreig.

Mae un yn deillio o'r maes glo caled fel y soniais i yn gynharach ac mae 'na draddodiadau tebyg yn rhannau o faes glo'r gogledd, yr ardaloedd llechi a thraddodiad unigryw Undeb Gweithwyr Môn.

Yn gysylltiedig â'r traddodiad hwnnw – y traddodiad cenedlaethol – mae enwau enwogion Llafur megis Jim Griffiths, Cledwyn Hughes, Megan Lloyd George yn ei dyddiau olaf a llu o ffigyrau llai adnabyddus ac anghofiedig.

O fewn y garfan oll gellid canfod y gwerthoedd anghydfurfiol yr wyf wedi sôn amdany'n nhw – ymlyniad at Gymru a'r Gymraeg, democratiaeth, cynnal breichiau ein gilydd, dyrchafu addysg a'r syniad o ddathlu llwyddiant tra'n disgwyl rhywbeth yn ôl.

Mae rhestr o enwau hyd yn oed yn fwy enwog yn rhan o'r traddodiad arall – yr un unoliaethol os mynnwch chi – oedd â'i wreiddiau yn nwyrain maes glo'r de a'r dinasoedd. I'r traddodiad hwnnw mae Aneurin Bevan, George Thomas a Neil Kinnock yn perthyn.

Mae'r berthynas neu'r frwydr rhwng y ddwy garfan Llafur yn allweddol i hanes y broses datganoli yng Nghymru.

Er mwyn cael unrhyw newid cyfansoddiadol o gwbl roedd yn rhaid cael cyfaddawd a chymod o fewn y blaid Lafur – plaid fwyafrifol Cymru am y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif.

Fe lwyddodd Jim Griffiths i wneud hynny ar ddechrau'r chwedegau. Canlyniad hynny oedd nid yn unig sefydlu swydd Ysgrifennydd Cymru ond hefyd sicrhau bod ganddo adran a chyfrifoldebau go iawn.

Methiant fu ymdrechion Michael Foot i sicrhau undod ynghylch cynlluniau llywodraeth Jim Callaghan. Gyda Neil Kinnock yn taranu ynghylch peryglon y llwybr llithrig at ymwahaniaeth gwelwyd ffrwyth y methiant hwnnw ar Fawrth y cyntaf 1979.

Camp fwyaf Ron Davies oedd sicrhau undod llwyr y blaid Lafur – o leiaf yn gyhoeddus – yn y misoedd cyn refferendwm 1997. Heb hynny mae'n debyg na fyddai 'na gynulliad. Pe bai dim ond un gwleidydd Llafur o unrhyw statws wedi gwrthwynebu'r cynllun mae'n debyg mai 'na' fyddai'r ateb wedi bod yn y bleidlais honno.

Nawr mae'n sicr eich bod chi i gyd yn gyfarwydd â mantra Ron Davies mai "*proses nid digwyddiad yw datganoli*" ond efallai nad yw pawb yn gwerthfawrogi'r rheswm yr oedd Ron yn credu hynny.

Y gwir amdani oedd ei fod e'n gwybod iawn fod y setliad a gynigiwyd i bobol Cymru yn y refferendwm yn un sâl – yn llawn gwendidau a fyddai'n dod yn amlwg o fewn byr o dro. Hwn oedd y gorau y gellid ei gael yng nghyd-destun gwleidyddiaeth fewnol y blaid Lafur.

Canlyniad y rhaniadau oedd setliad oedd rhaid ei hail ystyried, ei thrafod a'i hail drafod trwy ddegawd cyntaf y Cynulliad. Ai ddim trwy'r hanes i gyd – yr holl gomisiynau a chonfensiynau, y gwahanol glymbleidiau'r a'r ail refferendwm.

Y pwynt yw hyn. Roedd statws cyfansoddiadol Cymru yn bwnc oedd yn codi o bryd i'w gilydd yn ystod yr ugeinfed ganrif, ond mae e wedi bod yn destun trafod cyson yn ystod degawd gyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Yn wyneb datblygiadau yn yr Alban dyw hynny ddim yn debyg o newid.

Ar yr un pryd, oherwydd datganoli, cafwyd gwahaniaethau sylfaenol a chynyddol rhwng gwasanaethau cyhoeddus Cymru a rhai Lloegr. Canlyniad hynny yw bod pynciau fel iechyd – a oedd yn bwnc Prydeinig yn nyddiau Aneurin Bevan – bellach yn gwestiwn â nodweddion sy'n benodol Gymreig.

A dyma fi'n dod at graidd yr hyn sydd gen i ddweud heno – y cwestiwn yr wyf am ei ofyn.

Os newidiodd system bleidiol Cymru wrth i'r pendil gwleidyddol symud o bynciau oedd yn Gymreig i natur i rai oedd yn eu hanfod yn Brydeinig, a fydd yn rhaid iddi newid eto wrth i'r pendil symud yn ôl? Hynny yw, ydy'r rhaniadau pleidiol sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynrychioli'r rhaniadau naturiol o fewn y farn gyhoeddus yng Nghymru – wrth i bynciau Cymreig hawlio fwyfwy o sylw?

Rwyf yn gadarn o'r farn nad ydyn nhw.

Mae'n ymddangos i mi bod gwleidyddiaeth sy'n benodol Gymreig yn cael ei geni drachefn a bod yna floc naturiol o bleidleiswyr sydd wedi eu gwasgaru rhwng y pleidiau ar hyn o bryd.

Mi fedrwch eu canfod o fewn rhengoedd y pedair plaid. Rhain yw disgynyddion y traddodiad gwleidyddol anghydfurfiol rhyddfrydol sydd wedi goroesi o dan wyneb system bleidiol Brydeinig am ganrif a mwy.

Pwy yw'r bobol yma a beth maen nhw'n credu?

Fe fydd y darlun yn gyfarwydd.

Pobol ydyn nhw sy'n ymwybodol ac yn ymfalchio mewn Cymreictod, sy'n dyrchafu addysg, diwylliant a democratiaeth, sy'n edmygu gwasanaeth i gyd-ddyn a chymuned ac sy'n parchu llwyddiant trwy ymdrech ond yn ddrwgdybus ynghylch anghyfartaledd ac annhegwch.

Maen nhw'n ffyrnig o blaid y wladwriaeth les ac yn credu bod gwasanaethau cyhoeddus safonol yn bwysicach na cheiniog neu ddwy oddi ar y dreth.

Mae'r disgrifiad hwn yn ddisgrifiad o nifer sylweddol iawn o bobol Cymru – y mwyafrif o bosib. Hwn yw tir canol gwleidyddiaeth Cymru ac mae'n wahanol iawn i dir canol gwleidyddiaeth Lloegr.

Wrth i'r hen batrwm yma ddod yn fwyfwy pwysig yn ein gwleidyddiaeth mae'n ymddangos i mi bod ein pleidiau yn edrych yn debycach i enwadau gwleidyddol bob dydd. Fel yn achos yr enwadau mae pa blaid y'ch chi'n perthyn iddi'n dibynnu'n fwy ar gefndir teuluol, ardal ac iaith nag ar unrhyw ideoleg arbennig.

Mae 'na wahaniaethu diwinyddol bron rhyngddyn nhw ond dyw llawer o'r cefnogwyr ddim yn ymwybodol iawn beth yw'r gwahaniaethau hynny ac mae'r gwahaniaethau y tu fewn i ambell i blaid llawer yn fwy na'r gwahaniaeth rhyngddi a phlaid arall.

Ystyriwch hyn am eiliad. Pe bai Paul Davies, Elin Jones, Aled Roberts a Keith Davies yn eistedd gyda'i gilydd, faint o wahaniaethau barn go iawn byddai rhyngddyn nhw – o leiaf wrth drafod pynciau penodol Cymreig?

Oes ots? Rwy'n meddwl bod 'na. Does ond angen edrych ar Weriniaeth Iwerddon i weld y peryglon o system bleidiol sy'n ddibynnol ar raniadau'r gorffennol yn hytrach na gwahaniaethau barn y presennol.

Yn y fan honno i raddau helaeth yr hyn oedd yn gwahaniaethu Fianna Fáil a Fine Gael oedd ar ba ochor yr oedd teulu'r aelodau yn ystod rhyfel cartref Iwerddon.

Yn y fath sefyllfa ydy hi'n syndod bod gwleidyddiaeth wedi troi'n gêm o chwennych grym er mwyn ei gael – gyda'r canlyniad bod llygredd mewn gwleidyddiaeth yng ngeiriau comisiwn swyddogol yn "*endemic, well known and pervasive*".

Rwy'n falch i ddweud nad wyf yn credu y bydd sefyllfa debyg yn datblygu yng Nghymru.

Mae 'na arwyddion bod platiau tectonig ein gwleidyddiaeth yn symud a bydd system bleidiol Cymru yn adlewyrchu'r rhaniadau barn naturiol ymhen amser.

Dydw i ddim yn meddwl y bydd rhyw blaid newydd yn ymddangos o nunlle wrth i'r broses hynny ddigwydd. Yn hytrach mae'r pleidiau wedi synhwyro lle mae'r tir canol ac maen nhw'n symud ac yn ymgiprys i'w gipio. Yn hwyr neu'n hwyrach fe fydd un ohonyn nhw yn llwyddo.

Rwyf am ddweud gair am y gwahanol bleidiau cyn cloi.

Efallai ei bod yn rhyfedd i feddwl bod gan y blaid Geidwadol unrhyw obaith o etifeddu'r traddodiad anghydfurfiol. Nhw yw'r hen elyn wedi'r cyfan – ond fe wnaeth y blaid ymdrechu'n galed yng nghyfnod Nick Bourne i ennill o leiaf peth o'r tir canol thrwy Gymreigio a thrwy gymedroli ei safbwyntiau.

Ymddengys bod yr ymdrech hwnnw wedi dod i ben gydag ethol Andrew R.T. Davies. Efallai y bydd yn ail-gychwyn o dan arweinydd arall – a gallai 'na fod arweinydd arall yn gynt na mae pobol yn disgwyl.

Plaid arall sy'n ymgiprys am y tir yma yw etifedd swyddogol y Blaid Ryddfrydol sef y Democratiaid Rhyddfrydol. Yn sicr mae ei hathroniaeth a llawer o'i pholisïau yn rhai sy'n gweddu i draddodiad gwleidyddol Cymru.

Nid yr amcanion yw'r broblem ond yr acenion. Dyw'r rhan fwyaf o bobol yn sylweddoli pa mor fach yw'r Democratiaid Rhyddfrydol o safbwynt nifer eu haelodau a'r canran uchel o actifyddion sy'n ymhlith yr aelodaeth honno. Mae'n drawiadol yng nghyfarfodydd y blaid cyn lleied o acenion Cymreig sydd i'w clywed. Mae'n ymddangos bod nifer sylweddol o'r aelodau yn bobol wnaeth ddod i goleg yng Nghymru a phenderfynu aros yma.

Does dim byd o gwbl yn bod ar hynny ond rwy'n meddwl ei fod yn gwneud hi'n anodd i'r blaid bortreadu ei hun fel plaid wirioneddol Gymreig – ac mae'n nodweddiadol, mewn arolygon barn bod cefnogwyr y blaid yn cynnwys canran sylweddol o bobol sy'n gwrthwynebu datganoli a'r Undeb Ewropeaidd – meini sylfaen y blaid i fod.

Beth felly am blentyn siawns y Blaid Ryddfrydol – y blaid wnaeth fynnu parhau i drafod cwestiynau Cymreig pan oedd gwleidyddiaeth Brydeinig ar ei hanterth sef Plaid Cymru wrth gwrs? Byswn i'n mentro dweud bod y blaid honno wedi llwyddo i ennill y rhan fwyaf o'r tir canol ymhlith y Cymry Cymraeg ers blynyddoedd – ei phroblem yw ceisio ennill pobol ac anian debyg ond sy'n ddi-Gymraeg.

Rwy'n synhwyro mai'r awydd i wneud hynny wnaeth argyhoeddi cymaint o aelodau'r blaid i gefnogi Leanne Wood yn yr etholiad diweddar. Yn groes i'r ffordd mae'n cael ei phortreadu gan rai, mae safbwyntiau gwleidyddol yr arweinydd newydd yn ddigon tebyg i rai ei rhagflaenwyr mewn gwirionedd – y brandio, yr ieithwedd a'r bersonoliaeth.

Rwyf wedi sôn am werthoedd anghydfurfiol neu rhyddfrydol heno, fe fyddai eraill yn hanes Plaid Cymru wedi galw nhw'n werthoedd cydweithredol neu hyd yn oed gwerthoedd Cymreig. Mae Leanne Wood yn dewis y term sosialaeth ddatganoledig. Does 'na ddim llawer o wahaniaeth rhyngddyn nhw o safbwynt eu cynnwys mewn gwirionedd ac amser yn unig a ddengys a fydd yr ail-frandio yn llwyddo.

Yn eironig ddigon, y blaid olaf allai gystadlu am yr etifeddiaeth rhyddfrydol yw blaid wnaeth ddiorseddi'r Blaid Ryddfrydol – sef Llafur.

Yn y rhengoedd Llafur, am y tro cyntaf bron yr asgell genedlaethol gyda'i chadarnle ymhlith aelodau'r Cynulliad sydd â'i dwylo ar yr awenau. Fe fydd lleihau nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru, sydd ar y cyfan yn unoliaethol eu hanian, yn cryfhau'r gafael hwnnw.

Yn etholiad diwethaf y Cynulliad fe wnaeth Llafur bopeth posib i bortreadu ei hun fel y blaid genedlaethol Gymreig – gwir blaid Cymru – y blaid oedd yn sefyll cornel Cymru. Nid tacteg oedd honno o safbwynt pobol fel Carwyn Jones. Dyna maen nhw'n eu credu y dylai Llafur Cymru fod.

Nid bod hynny'n golygu nad yw'r elfennau unoliaethol gyda'r agwedd ddrwgdybus tuag at ddatganoli a'r iaith Gymraeg yna o hyd.

Yn breifat fe ddywedodd un o sêr ifanc y blaid hon: *“Rwy'n fodlon gweld Llafur yn efelychu Plaid Cymru fel tacteg, fel yn etholiad 2010, ond dydw i ddim am weld hi'n strategaeth hir dymor.”*

Yn hwyr neu'n hwyrach, dybiwn i, mae un o ddau beth yn mynd i ddigwydd.

Efallai y bydd asgell genedlaethol Llafur Cymru yn ennill goruchafiaeth ar y blaid. Os felly mae gan Llafur gyfle i etifeddu'r traddodiad yr wyf wedi bod yn trafod heno.

Os nad yw hynny'n digwydd, dros gyfnod o amser, fe fydd y bobol o'r anian honno yn mudo i Blaid Cymru.

Beth fydd yn digwydd? Does dim clem 'da fi – ond fe fydd y blynyddoedd nesaf yn rhai diddorol a thyngedfennol yn ein gwleidyddiaeth.

Yn gynharach yr wythnos hon fe gasglais i gofeb T.M. Roderick o Dabernacl Cwmgors, sydd bellach wedi cau ... ond hyd yn oed os yw'r Tabernacl, fel sawl capel arall bellach yn dywyll ac yn dawel, erys eu dylanwad arnaf i ac arnon ni – ac ar ein gwleidyddiaeth fel cenedl.

*Vaughan Roderick  
Darlith Flynyddol Morlan  
19 Ebrill 2012*